Cyfarfod Blynyddol
Cymdeithas Grefyddol y
Cyfeillion ym Mhrydain

Crynwyr ac Achlysuron Eciwmenaidd

Yr Ewcharist

Taflen gan Bwyllgor y Crynwyr dros Gysylltiadau â Christnogion a Chrefyddau Eraill/Quaker Committee for Christian and Interfaith Relations (QCCIR).

Yn achos y rhan fwyaf o eglwysi, y sacrament yw prif ffurf eu haddoliad; fe'i hadwaenir dan sawl enw, megis yr Ewcharist, yr offeren, cymun bendigaid, torri'r bara neu swper yr Arglwydd. Yn aml, ar achlysuron eciwmenaidd, bydd yr eglwys sydd yn arwain yr addoli'n gweinyddu'r Ewcharist, gan wahodd pawb sy'n bresennol i gyfranogi o'r bara a'r gwin. Gall cynrychiolwyr eglwysi eraill, yn ogystal â chynrychiolwyr y Crynwyr, ei chael hi'n anodd derbyn y gwahoddiad hwn, er eu bod yn falch o gael bod yn y gwasanaeth. Ymdrinia'r daflen hon â'r cwestiwn sut y gallai Crynwyr sy'n cynrychioli'r Gymdeithas ymateb i'r fath wahoddiad.

Tystiolaeth y Crynwyr

Dylai Cyfeillion fod yn barod, os bydd rhywun yn holi, i egluro pam nad ydynt yn derbyn y Sacrament. Nid digon yw dweud ‘Ystyriwn fod bywyd i gyd yn sacramentaidd’, gan nad yw hyn yn rheswm dros ystyried, yn ôl pob golwg, mai derbyn y Sacrament yw'r unig eithriad.

Trwy gydol ei hanes, mae Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion wedi cynnal tystiolaeth i fywyd corfforaethol nad yw'n dibynnu ar sacramentau allanol. Mae'r dystiolaeth hon yn hysbys i lawer, ac mae parch iddi.

Realiti byw'r Crist ymbreswyliol a gadarnhaodd gred George Fox fod: 'Crist wedi dod Ei hun i ddysgu Ei bobl, trwy Ei rym a'i Ysbryd yn eu calonnau'. Dadl Cyfeillion cynnar, felly, oedd eu bod wedi'u rhyddhau o ymrwymiadau coffadwriaeth ddefodol. Profent bresenoldeb Crist yn eu bywyd a'u haddoli. Awgrymodd Paul y dylem gyfranogi o'r Ewcharist i gofio marwolaeth yr Arglwydd nes iddo ddod: 'rydym ni wedi ein hargyhoeddi ei fod wedi dod.

Parhawn i gwrdd mewn distawrwydd ac i ddisgwyl gan Dduw y geiriau a all ddod, i

unrhyw un ohonom, o ddyfnderoedd y cyd-ddisgwyl hwnnw. Yn ein profiad ni, ni chyfyngir realiti presenoldeb Duw i unrhyw ffurf sacramentaidd arbennig, a gellir ei adnabod yn llawn mewn addoliad na cheidw unrhyw un o'r elfennau traddodiadol sy'n ganolog i fywyd sawl eglwys. Credwn fod ein cyfarfodydd addoli, pan y'u cynhelir yn gywir, yn rhoi inni brofiad sydd yr un mor ddyrchafedig a symbolaidd â'r Ewcharist. Gwelwn ninnau hefyd addoli fel dull o gymundeb rhwng y dynol a'r dwyfol, rhywbeth sy'n dathlu gwaith Duw yn y cread, ac sy'n adnewyddu aelodau'r corff sy'n addoli ac yn eu clymu at ei gilydd.

Mae ein Cymdeithas wedi cynnal tystiolaeth barhaus i natur fewnol profiad crefyddol. Mae bywyd i gyd yn sanctaidd, gyda phob man, pob unigolyn a phob gweithred yn brofiad a all ddod â ni i bresenoldeb Duw. Gan hynny, eiddo i holl gymdeithas Duw yw gorchwyl offeiriadol ymarfer swyddogaethau Crist yn y byd. Felly, gellir adnabod gras Duw heb gyfryngwr. Ni waeth pa mor ddilys a bywhaol y bo sacramentau allanol ar gyfer pobl eraill, nid oes, yn ein profiad ni, eu hangen ar gyfer gweithrediad gras Duw. Cadwn y dystiolaeth hon mewn ymddiriedaeth ar gyfer yr eglwys i gyd.

Agweddau at yr Ewcharist

Mae perthynas y Crynwyr ag eglwysi eraill yn debygol o olygu ein bod ni'n cymryd rhan ar y cyd mewn gwahanol wasanaethau crefyddol. Weithiau bydd cyfleoedd i gyflwyno addoliad y Crynwyr i aelodau o eglwysi eraill, a thrwy hynny ehangu eu profiad eciwmenaidd. Ar adegau eraill, ni, o bosibl, fydd yn cymryd rhan mewn ffurfiau addoli sy'n ehangu ein profiad ninnau.

Mae gan rai Cyfeillion gysylltiad agos ag eglwysi eraill, ac maent yn arfer cyfranogi o'r Ewcharist. Bydd yr hyn a wna Cyfeillion pan weinyddir yr Ewcharist yn dibynnu ar y sefyllfa. Gallai'r rhai sy'n bresennol fel unigolion deimlo bod ganddynt fwy o ryddid na'r rhai sy'n cynrychioli'r Gymdeithas. Hyd yn oed os nad ydych yn gynrychiolydd swyddogol, gall fod pobl yn eich adnabod fel Crynwr, ac yn eich gweld fel rhywun sy'n cynrychioli'r Crynwyr.

Os bydd Cyfeillion yn mynd i'r gwasanaeth fel grŵp, byddai'n ddoeth trafod ymatebion posibl ymlaen llaw. Mae'n galonogol sylweddoli nad yw ymesgusodi o dderbyn y Sacrament ddim fel arfer yn debygol o beri tramgwydd; gall fod yn hawdd bod eraill a fydd hefyd yn ymesgusodi, am eu rhesymau eu hunain. Ar adegau felly, mae rhaid i Gyfeillion fod yn ymwybodol iawn o arwyddocâd y gweinyddu ar gyfer gweddill y gynulleidfa, a gall yr arwyddocâd ei hun amrywio o'r naill enwad i'r llall, ac o'r naill unigolyn i'r llall Yn wahanol i'r Cyfeillion, mae'r rhan fwyaf o Gristnogion yn edrych ar weinyddiad yr Ewcharist fel achlysur penodol pan ddaw Crist yn adnabyddus iddynt mewn modd arbennig. Wrth gymryd rhan mewn gwasanaeth Cymun Bendigaid, dylai Cyfeillion sylweddoli y gall fod yn foddion goleuedigaeth ysbrydol os gwnânt hyn mewn ysbryd o ostyngeiddrwydd a chariad.

Os gwyddoch na fyddwch yn derbyn y cymun, gall fod yn help dewis sedd lle na fyddwch yn rhwystro eraill rhag mynd at yr allor.

Gwahanol ffurfiau ar wasanaeth cymun

Mewn sawl gwasanaeth cymun, gwahoddir y gynulleidfa, ar adeg benodol, i ddod at yr allor neu at fwrdd y cymun, i dderbyn y sacrament neu, fel arall, fendith a weinyddir gan yr offeiriad. Gall Cyfeillion aros yn eu seddau. Wrth i'r rhan fwyaf o'r gynulleidfa

gyfranogi'n dawel o'r Sacrament, erys y Cyfeillion mewn cymun addolgar gyda hwy.

Mewn rhai eglwysi, yr arfer yw dod â'r bara a'r gwin o gwmpas at y gynulleidfa. Yn y fath sefyllfa, gall Cyfeillion ymesgusodi trwy, er enghraifft, ysgwyd pen, neu drwy beidio ag estyn dwylo i dderbyn yr elfennau, neu drwy eu hestyn i rywun arall ar ôl saib priodol. I rai Cyfeillion, gall y teimlad o undod gyda grŵp arbennig o Gristnogion fod yn gryf iawn, a gall yn hawdd ymddangos yn iawn iddynt fynegi'r undod hwn trwy dderbyn y bara a'r gwin. Lle bo Cyfeillion yn arfer y rhyddid hwn, dylent fod yn ymwybodol y gall gyfrannu at gamddeall Tystiolaeth y Gymdeithas.

Ymholiadau i'w hystyried yn ddwys

Os byddwch yn cynrychioli'r Cyfeillion mewn gwasanaeth eciwmenaidd sy'n cynnwys yr Ewcharist, efallai y cewch hi'n ddefnyddiol ystyried y cwestiynau canlynol.

1. A ydych wedi meddwl yn fanwl ynghylch eich safbwynt mewn perthynas â'r Ewcharist? A ydych yn ymwybodol o'r modd y mae'ch profiad a'ch cefndir wedi cyfrannu i'r ymateb hwn?

2. A ydych wedi ymgynghori ynghylch y materion hyn gyda'r Cyfarfod neu gyda Chrynwyr eraill a all fod yn bresennol?

3. Pa beth fydd aelodau eglwysi eraill a fydd yn bresennol yr adeg hon yn ei ddisgwyl gan Grynwr?

4. A fuoch yn trafod â'r un a fydd yn gweinyddu'r Ewcharist ynghylch ei safbwynt o ran rhoi cymun i Grynwr, neu a ydych wedi egluro pam y mae arnoch/nad oes arnoch eisiau cymryd rhan?

5. Os byddwch yn mynd ymlaen i dderbyn bendith, a ydych wedi hysbysu'r offeiriad/gweinidog? Os estynnir y bara a'r gwin o law i law, a ydych wedi ystyried sut i egluro'ch ymateb?

6. A ydych wedi meddwl sut i egluro i eraill yr hyn a wnewch?

7. I ba beth ydych chi'n tystiolaethu yn yr hyn y penderfynwch ei wneud? A ydych chi wedi meddwl sut y bydd eraill yn ymateb i'r dystiolaeth hon a sut byddant yn ei deall?

8. Sut ydych chi'n teimlo y byddwch yn cynrychioli'r Cyfeillion?

9. A oes unrhyw beth ynghylch gweinyddiad yr Ewcharist ar yr achlysur arbennig hwn a allai wneud ichi newid eich ymateb arferol y tro hwn?

10. A ydych yn glir yn eich meddwl eich hunain eich bod chi'n cael eich arwain yn iawn, a'ch bod yn parhau i wrando ar yr ysbryd?

Taflen gan Bwyllgor y Crynwyr dros Gysylltiadau â Christnogion a Chrefyddau Eraill/Quaker Committee for Christian and Interfaith Relations (QCCIR). Gall y QCCIR roi cyngor a chefnogaeth i Grynwyr a Chyfarfodydd sy'n dymuno ehangu a dyfnhau eu hymwneud ag eglwysi a chrefyddau eraill.

Cysylltwch â : QCCIR c/o Friends House, 173 Euston Road, London NW1 2BJ. E-bost: marigoldb@quaker.org.uk Ffôn: 020 7663 1060